Y CYMRO
llythyrau

Annwyl y Cymro,

Pam ddylid rhoi pwyslais ar dafodiaith wrth ddysgu Cymraeg?

A yw hi'n bwysicach i ganolbwyntio ar ddysgu Cymraeg yn gywir yn lle rhoi pwyslais ar dafodiaith? Credaf fod tafodiaith yn ychwanegu at gymeriad iaith ac yn gwneud iddi swnio'n fwy naturiol.

Yn ddiweddar, darllenais lyfryn arbennig gan Fenter Iaith Sir Benfro ar dafodiaith y sir honno. Esboniwyd yn glir pam y gwelir dirywiad mewn defnydd o dafodiaith Gymraeg naturiol yr ardal honno. "Canlyniad symud o gwmpas y lle sy'n achosi i dafodiaith newid a phobl yn symud mas o'r ardal wrth i'r llif fynd tuag at y dinasoedd". Dwi'n un o'r niferoedd hynny sydd wedi symud o dde orllewin Cymru i fyw i ardal y brifddinas, a hynny pan oeddwn yn fachgen saith oed.

Sut fyddai dysgu mwy o ymwybyddiaeth am dafodiaith Gymraeg yn gwella ansawdd addysg cyfrwng Gymraeg yng Nghymru? A pham ydw i'n teimlo y byddai hyn yn gwneud cymaint o wahaniaeth?

Pan oeddwn i yn yr ysgol, roeddwn i'n teimlo fy mod yn siarad Cymraeg mewn ffordd nad oedd y disgyblion eraill yn medru deall. Roeddwn yn teimlo'n wahanol iawn iddynt am fy mod yn siarad Cymraeg mewn tafodiaith ac acen orllewinol ac yn teimlo fy mod fel estron ynghanol môr o Seisnigrwydd. Dyna pam rwy'n meddwl y buasai dysgu mwy am dafodiaith yn helpu plant ysgol i dderbyn a gwerthfawrogi gwahanol dafodieithoedd ac acenion ac yn helpu disgybl i beidio teimlo'n estron wrth siarad Cymraeg yn ei dafodiaith ei hun.

Gofid am fethu gwneud ffrindiau na ffitio i mewn yn y grwpiau cymdeithasol oedd yn achosi i mi siarad Saesneg yn aml yn yr ysgol. Doedd y disgyblion eraill ddim eisiau siarad Cymraeg gyda'i gilydd a doedden nhw ddim yn medru gwerthfawrogi na derbyn fy ffordd wahanol i o siarad Cymraeg.

Faint o bobol ifanc sydd wedi teimlo nad yw hi'n bosib teimlo'n gyffyrddus wrth siarad Cymraeg yn gymdeithasol o fewn yr ysgol? Onid oes gan ddisgybl o gartref Cymraeg yr hawl i deimlo'n gysurus yn ei dafodiaith naturiol ei hun wrth gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol?

Rai blynyddoedd yn ôl pan oedd fy nhad yn yr ysgol, roedd yna ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd, sef Ysgol Bryntaf. I blentyn gael mynediad i'r ysgol hon roedd yn rhaid i ddau riant y disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg yn ogystal â mynychu capel neu eglwys Gymraeg er mwyn i'r plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol.

O ganlyniad roedd y plant yn siarad Cymraeg a'i gilydd yn naturiol heb unrhyw orfodaeth. Gellir dadlau fod hyn yn ddull elitaidd o weithredu. Yn yr oes hon, ellir dadlau buasai sefydlu ysgol o'r fath yma yn cau'r drws ar ddatblygiad positif yn y nifer o siaradwyr Cymraeg.

Ond a fuasai sefydlu'r math yma o ysgol yn diddymu'r math o fwlio y cefais i brofiad ohono, sef y teimlad annifyr nag oeddwn yn cael fy nerbyn yn gyffredinol gan y plant eraill oherwydd y ffordd yr oeddwn yn siarad. Meddyliwch, byddai'r teimlad o fod yn unigryw am fy mod eisiau siarad Cymraeg yn gymdeithasol yn yr ysgol yn diflannu. Ni fuasai'n anodd i ddisgyblion ddangos eu bod yn dymuno siarad Cymraeg beth bynnag bo'u hacen neu dafodiaith.

Beth felly yw pwrpas addysg Gymraeg os nad yw disgyblion yn siarad Cymraeg yn naturiol a'i gilydd tu allan i'r ystafell ddosbarth? Ydy addysg Gymraeg yn ffordd gyfleus o ddianc o system addysg Saesneg israddol? Mae yna fwy i siarad Cymraeg na deall yr iaith yn rhannol yn unig ar ôl gadael yr ysgol. Dylai addysg Gymraeg sicrhau fod pob plentyn yn gallu siarad yr iaith yn rhugl ac mewn modd sy'n adlewyrchu gwybodaeth o dafodiaith. Oherwydd credaf mai defnydd o dafodiaith sy'n mynd i achub yr iaith yn y pendraw.

Dywedodd W R Evans yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun yn 1986 am dafodiaith Gymraeg:

"Mae hen dafodieithoedd yn gwanhau, ac yn diflannu dros Gymru gyfan,...y gwir yw bod yna ugeiniau o eiriau a dywediadau yn mynd i ebargofiant. Rwy'n cyfrif y rhain yn drysorau gwerthfawr. Rwy'n gorfoleddu yn llwyddiant yr ysgolion dwyieithog...Ond a oes yna berygl inni roi i'n plant ryw fath o iaith blastig, ddiwreiddiau?"

Ond beth arall allwn ni wneud i sicrhau dyfodol i'r iaith Gymraeg a'i thafodieithoedd? Beth am y pwysigrwydd o siarad yr iaith yn y cartref? Yn ogystal ag addysg Gymraeg yn yr ysgol, mae siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn eithriadol o bwysig i sicrhau parhad yr iaith a'i thafodieithoedd. Yn y pendraw, cyfrifoldeb yr unigolyn ydyw i siarad yr iaith i sicrhau parhad yr iaith a'i thafodieithoedd.

Aled Thomas

Cysylltwch gyda'r Cymro:
gwyb@ycymro.cymru

Annwyl Olygydd,

Hoffwn longyfarch pawb roddodd ei nerth i fynd â'r maen i'r wal! Edrychaf ymlaen at gael darllen Y Cymro eto o hyn ymlaen a mwynhau cynnyrch y cyfranwyr hen a newydd.

Os ydi'r neges yma'n eich cyrraedd mewn pryd gaf i dynnu sylw eich darllenwyr at Gymanfa Ganu Swydd Efrog a Gogledd-ddwyrain Lloegr fydd cael ei chynnal yn Eglwys Fethodist, East Street, Lindley ger Huddersfield HD3 3ND ddydd Sadwrn 12 Mai o 2.00 - 3.30 ac 4.45 - 6.30 o'r gloch. Y Parch. Philip Barnett, o'r Bala yn wreiddiol, fydd yn arwain a bydd Trystan Lewis yn cyfeilio'r canu ar yr organ. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01535 665829. Dowch yn llu.

Yn gywir,
Eileen Walker

On i'n siomedig dros ben pan ddaeth **'Y Cymro'** i ben y llynedd a minnau wedi bod yn ddarllenydd cyson ers fy arddegau.

Dwi'n 83 oed bellach ac on i wrth fy modd pan glywais i y byddai'r 'Cymro' yn ail ymddangos. Felly hoffwn i ddiolch i'r criw sy wedi cydio yn y gwaith o roi bywyd newydd i'r papur. Edrychaf ymlaen at weld 'Y Cymro' yn dychwelyd i fod yn wythnosolyn unwaith eto. Ond yn y cyfamser ymlaen bo'r nôd a phob llwyddiant i'r 'Cymro' newydd!

Gwilym E. Roberts Rhiwbeina, Caerdydd

Annwyl Gruffydd a Wyn

Rwy'n rhedeg Teithiau Tywys o amgylch Caernarfon, echdoe cefais bedwar o bobol ar y daith a dyma eu taliad yn dod i chi.
Dwi mor falch o weld y CYMRO yn ôl yn y siopau ac rwyf wedi archebu copi pob mis yn Palas Print.
Os hoffwch ddod ar fy nhaith, yna dewch a chaf son am ein Tre anhygoel sy'n gwella pob dydd.
Pob hwyl i'r fenter.
Yn gywir
Emrys Llywelyn
Caernarfon
www.drodre.co